



# Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 6 Ionawr 2015 am 6.30yh  
yn Ystafell Gynhadledd Antur Teifi, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 6 January 2015 at 6.30pm  
at the Antur Teifi Conference Room, Cardigan.

**Presennol/Present—Cynghorwyr/Councillors** Graham Evans (*yn y gadair/in the chair*),  
Dai Brabrook, Mark Cole, Clive Davies, Ken Edwards, Melfydd George, Neal Jones, Gwynfi Jenkins,  
Catrin Miles, Jane Roche, Akira Shimazaki.

## 1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

Dymunodd y Maer, y Cyng. Graham Evans, flwyddyn newydd dda i bawb, a chroesawodd yr aelodau i gyfarfod cyntaf 2015; estynnwyd croeso hefyd i Ms Holly Robinson, gohebydd y Teifi-Seid; yn sgil hynny mynegodd y siom a deimlwyd bod Mrs Sue Lewis wedi colli swydd fel gohebydd olaf y papur lleol; bu Sue'n gaffaeliad i'r ardal eang gyda'i gwasanaeth i gymaint o sefydliadau megis Pwyllgor 2010, Theatr Byd Bychan, Pwyllgor Gefeillio Brioude/Aberteifi, ei gwasanaeth ar fyrddau llywodraethol ysgolion yr ardal a hefyd Ymddiriedolaeth Cadwgan. Diolchwyd iddi am eu gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd. Cyfeiriodd y Maer at farwolaeth Mr Donald Davies, cymeriad a werthfawrogwyd gan gymaint fel hanesydd blaenllaw yr ardal. Cyfeiriodd at lwyddiant ymgyrch masnachol y Garden Ffyddlondeb; cyflwynwyd tarian y dref i siop Steil am arddangos y ffenestr mwyaf arddurniadol dros yr Ŵyl gyda chanmoliaeth arbennig i siop Tenovus. Dymunodd y Maer yn dda i'r Cyng. Llwyd Edwards sydd yn dal yn Ysbyty Glangwili yn dilyn ei ail lawdriniaeth yn ddiweddar.

The Mayor, Cllr Graham Evans, wished everyone a happy new year, and welcomed the members to their first meeting of 2015; he also welcomed Ms Holly Robinson, the Tivy-Side reporter. Mention was made of the redundancy of Mrs Sue Lewis as the last editor of the local paper; Sue had been an excellent champion of community gatherings and organisations in the area, including the 2010 Committee, Small World Theatre, Brioude-Aberteifi committee, her contribution to the governing bodies of local schools and her strong allegiance to the Cadwgan Trust. She was thanked for her service over many years. The Mayor referred to the passing of a well respected local historian, Mr Donald Davies, a gentleman who had contributed greatly to preserving the history of Cardigan and district for future generations. Reference was made to the success of the Loyalty Card venture during the pre-Christmas shopping spree; a town shield was presented to the High Street shop Steil for their festive window display with commendation to Tenovus for their effort. The Mayor wished Cllr Llwyd Edwards well as he recuperated in Glangwili Hospital from his second surgical procedure.

## 2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyngh./Cllrs John Adams-Lewis (*gwyliau/on vacation*), Llwyd Edwards (*yn yr ysbyty/hospitalised*), Richard Jones (*gwaith/work commitments*)

## 3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Cyng./Cllr Catrin Miles	Cofnodion is-bwyllgorau. Sub-committee minutes 25/11/14: additional point raised <i>tud./page</i> 923
Cyng./Cllr Mark Cole	Gohebiaeth/Correspondence 11[223] Eitem/Item 14: Cadwgan Grant

**4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 2 Rhagfyr.**

Confirmation of Minutes of 2 December Council Meeting.

**Cynigiwyd gan y Cyng. Mark Cole ac eiliwyd gan y Cyng. Catrin Miles bod cofnodion cyfarfod y cyngor 2 Rhagfyr yn gywir.**

It was proposed by Cllr Mark Cole and seconded by Cllr Catrin Miles that the 2 December council minutes were correct.

**5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 2 Rhagfyr (Mewn pwyllgor).**

Confirmation of Minutes of 2 December Council Meeting (In committee).

**Cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Gwynfi Jenkins bod cofnodion cyfarfod mewn pwyllgor y cyngor 2 Rhagfyr yn gywir.**

It was proposed by Cllr Dai Brabrook and seconded by Cllr Gwynfi Jenkins that the 2 December council in committee minutes were correct.

**6. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**

**Tud. 925, eitem 6 (*Lôn Bingham*): Dywedodd y Cyng. Mark Cole ei fod yn dal i aros am wybodaeth oddi wrth Mr Gareth Thomas (Cantref).**

**Tud. 925, eitem 6 (*Golau'r Bont*): Dywedodd y Cyng. Catrin Miles bod y golau yn awr yn gweithio ar y bont ac y disgwylir eu diweddarau â bylbiau cryfach cyn bo hir.**

**Tud. 928, eitem 11[208] (*Cegin Neuadd y Dref*): Da oedd clywed bod y gwaith i gywiro llawr y gegin yn Neuadd y Dref wedi ei gwblhau dros y gwyliau.**

**Tud. 930, eitem 12 (*Cadwgan*): Cafwyd diweddariad gan y Cyng. Mark Cole nad oedd y trosglwyddiad disgwylidig am gyfrifoldeb y castell wedi ei gyflawni ar 19 Rhagfyr. Oherwydd hyn nid oedd ardal y Strand wedi ei glirio er mwyn cynorthwyo parcio ceir ar y stryd, er bod Rhiw Grosvenor yn glir at hynny.**

Page 925, item 6 (*Bingham Lane*): Cllr Mark Cole stated that he was still awaiting a response from Mr Gareth Thomas (Cantref).

Page 925, item 6 (*Bridge lights*): Cllr Catrin Miles stated that the lights on the bridge were now functioning; she added that the bulbs would be replaced with more powerful ones in the near future.

Page 928, item 11[208] (*Guildhall kitchen floor*): Members were pleased to learn that the kitchen floor at the Guildhall had been repaired during the holiday period.

Page 930, item 12 (*Cadwgan*): An update was given by Cllr Mark Cole mentioning that the expected hand-over of responsibility to the Cadwgan Trust from the contractors on 19 December had not materialised. Accordingly, the Strand area was not cleared to allow additional parking, although the Grosvenor Hill area was available for this purpose.

**7. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.**

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

**Cyflwynodd y Maer ei ddyddiadur am fis Rhagfyr ac atgoffodd aelodau am bwysigrwydd cyfarfod y gyllideb ar 20 Ionawr.**

The Mayor presented his diary for December and reminded members of the importance of the budget meeting on 20 January.

**8. Cynllunio / Planning:**

**Penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion / Ceredigion County Council decision:**

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Penderfyniad / Decision</i>
A140955	Solar Park, Crugmore Farm, Penyparc	Application for a non-material amendment following a grant of planning permission A130807	<i>Mae'r cais wedi ei ganiatáu.</i> The application has been approved and considered as being an acceptable non-material amendment.
A140791	63 Maesydderwen	The erection of a balcony to the first floor rear elevation measuring 2m x 3.5m	<i>Mae'r cais wedi ei wrthod.</i> Permission has been refused.

9. (a) **Biliau wedi eu talu / Bills paid.**

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
1/1/15	Antur Teifi: <i>Rhent y Swyddfa</i> /Rent of Office	A7	D/D	£238.33 (0.00)
27/12/14	Siemens: <i>prydles y llungopiwr</i> /lease of photocopier	A16	D/D	£150.00 (25.00)
19/12/14	Trywydd: <i>Cyfieithu ar y pryd</i> . Simultaneous translation (2/12/14)	A17	4052	£81.90 (13.65)
16/12/14	Aeron Waste Services: <i>Hurio toiledau symudol</i> . Hire of portable toilets (Cardigan Fair)	B11	4053	£150.00 (25.00)
1/1/15	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc</i> /Clerk's Salary ( <i>Rhagfyr</i> /December)	A3	4054	£732.95 (0.00)
17/12/14	BT: <i>Ffôn</i> / Telephone	A19	4055	£75.12 (12.52)
30/11/14	Clynderwen & Cardiganshire Farmers: Compost	C2	4056	£14.58 (2.33)
9/12/14	Telemat: <i>Cynnal ebost ac ailgofrestru enw parth</i> . Maintenance of email and re-registering domain address	A19	4057	£56.70 (9.45)
10/12/14	Derwen Lighting Ltd: <i>Atgyweirio golau</i> . Repair of light at Cnwcydintir Lane.	B2	4058	£115.49 (19.25)
22/12/14	Penrallt Garden Centre Ltd: <i>Coeden Nadolig</i> . Christmas tree for Guildhall Square	B1	4059	£250.00 (41.67)
31/12/14	HMRC: PAYE £549.00, Class 1 NIC £104.73 ( <i>Hyd., Tach., Rhag.</i> — October, Nov., December)	A15	4060	£653.73 (0.00)
2/1/15	Awen Teifi: <i>Baner y Ddraig Goch</i> . Welsh Dragon flag for the Guildhall	C2	4061	£152.40 (25.40)
31/12/14	Antur Teifi: <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd</i> . Rent of Conference Room (2/12/14, 16/12/14).	A7	4062	£60.00 (10.00)
31/12/14	Argraffwyr E. L. Jones Printers: <i>Cardiau Nadolig</i> . Christmas cards	A5	4063	£100.80 (16.80)
31/12/14	<i>Bachan Deche</i> / Handyperson ( <i>Rhagfyr</i> /December)	A18	4064	£81.90 (13.65)

**Cynigiwyd gan y Cyng. Mark Cole ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook bod y biliau uchod yn cael eu talu.**

It was proposed by Cllr Mark Cole and seconded by Cllr Dai Brabrook that the above bills be paid.

**Cyhoeddodd y Cyng. Clive Davies mai Cyngor Tref Aberteifi bydd y cyngor cyntaf i gofrestru am y Band Eang Cyflym. Yn dilyn ei gyfarwyddyd, cynigiodd y Cyng. Melfydd George ac eiliwyd gan y Cyng. Catrin Miles bod y cyngor yn ailgofrestru ei enw parth i cyngor@trefaberteifi.cymru.**

Cllr Clive Davies announced that Cardigan Town Council would be the first council in Wales to register for the Super Fast Broadband. Following his directive, Cllr Melfydd George proposed that the council's domain address be re-registered as cyngor@trefaberteifi.cymru; this was seconded by Cllr Catrin Miles.

**Derbyniadau/Receipts:** 10/11/14 *Llog y Banc*/Bank Interest £3.99  
9/12/14 *Llog y Banc*/Bank Interest £3.17

(b) **Adroddiad Ariannol hyd 31 Rhagfyr / Financial Report to 31 December**

**Gofynnodd y Cyng. Jane Roche am ganiatâd i ddefnyddio'r arian sydd yn y gyllideb (Categori 11) i gynnal cyfarfod o grwpiau ieuenctid yn hwyrach yn ystod y tymor. Caniatawyd ei chais.**

Cllr Jane Roche requested permission to use funds held in the budget (Category 11) to organise a youth group meeting later this term. Permission was granted.

**Diolchwyd i'r clerc am gynhyrchu adroddiad ariannol cyfamserol y cyngor.**

The clerk was thanked for producing an update of the present financial position of the council.

10. Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn trefnu cyfarfodydd o 19-23 Ionawr a 26-30 Ionawr i wyntyllu'r cynlluniau atal llifogydd yn yr ardal. Maent yn annog pawb a gafodd broblemau i alw heibio i dderbyn gwybodaeth. Ychwanegodd y Cyng. Miles bod cynlluniau boddhaol ar y gweill a bod yr awdurdodau i gyd yn cydweithio'n dda.
- (ii) Cynhelir is-gyfarfodydd i drafod Man Chwarae Netpwl a mater y toiledau yn ystod yr wythnos; fe gyflwynir argymhellion yng nghyfarfod yr Is-bwyllgorau ar 13 Ionawr. Er nad yw'r Cyng. Llwyd Edwards wrth y llyw ar hyn o bryd, mae'r is-bwyllgor yn symud ymlaen gyda chynlluniau man chwarae Pentop. Mae'r cyfreithwraig Carys Dyer wedi cyflawni'i gwaith yn gyflym a bydd angen cysylltu â'r adeiladydd Mike Phillips cyn bo hir.
- (iii) Cyfeiriodd y Cyng. Miles at ddigwyddiad anffortunos a thrist yn ardal Golwg y Castell yn ddiweddar; da oedd deall nad oedd achos amheus ynghlwm â'r mater.
- (iv) Croesawodd y Cyng. Miles y newyddion am wasanaeth bysiau T5 o Aberystwyth i Hwlfordd. Dechreuwyd y gwasanaeth ar 5 Ionawr ac mae'n rhan o'r rhwydwaith a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.
- (v) Dywedodd y Cyng. Miles bod 83 o blant yn mynychu'r dosbarth derbyn yn Ysgol Gynradd Aberteifi; fel canlyniad, bydd angen dau/dwy gynorthwy-ydd ychwanegol.

(b) Y Cyng. Mark Cole:

- (i) Ailadroddwyd y newyddion am wasanaeth T5 yn yr ardal; bydd yr amserlen yn cyd-lynu â theithiau eraill yn y sir. Bydd yn rhedeg bob awr i'r ddau gyfeiriad yn ystod yr wythnos a dydd Sadwrn gyda chefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru.
- (ii) Da yw deall bod y cyngor sir yn delio gyda'r mater i ailagor y llwybr sydd yn arwain o Rif 1 Bro Teifi at derfyn Rhif 11 Bro Teifi.
- (iii) Cynhelir cyfarfod cyhoeddus ynglŷn â Chanolfan Adnoddau Gofal Integredig Aberteifi a materion gwasanaethau iechyd eraill ar 19 Ionawr yn Theatr Byd Bychan gyda sesiwn galw-heibio rhwng 5.30 a 6.30 o'r gloch a chyflwyniad – "Astudiaeth Gofal Iechyd y Canolbarth" – i ddilyn am 6.30 gyda sesiwn cwestiwn/ateb. Cynhelir cyfarfod Hapddalwyr ar 22 Ionawr am 2.00 o'r gloch (y man a'r lle i'w drefnu).

(a) Cllr Catrin Miles:

- (i) Natural Resources Wales are holding meetings from 19-23 January and 26-30 January to highlight plans to control future floods in the area. The authority invites all interested parties to attend. Cllr Miles added that comprehensive plans are afoot to create flood alleviation schemes and that all partners are co-operating well.
- (ii) Sub-committees will be held this coming week to discuss the issue of leasing the Netpool Play Area from Ceredigion County Council, and the on-going issue of toilets in Cardigan; recommendations will be offered at the next sub-committee meeting on 13 January. Although Cllr Llwyd Edwards is not presently at the helm, the sub-committee is moving onwards with plans for the Pentop play area. Carys Dyer, the solicitor in charge, has completed the initial legal requirements, and there will soon be a need to contact Mike Phillips, the appointed contractor, to commence the work.
- (iii) Cllr Miles referred to the unfortunate and sad news of the event at Golwg y Castell recently; all were relieved to learn that no suspicious circumstances surrounded the case.
- (iv) Cllr Miles welcomed the news of the introduction of the T5 coach service from Aberystwyth to Haverfordwest from 5 January and is part of the Welsh Government-funded *TrawsCymru* network.
- (v) Cllr Miles mentioned that 83 children are now attending the pre-school class at Ysgol Gynradd Aberteifi; as a result, two additional classroom assistants will be required.

(b) Cllr Mark Cole:

- (i) Cllr Cole reiterated the good news that the T5 coach service was being introduced; the timetable will correspond with other local journeys en route. It will operate hourly in each direction on weekdays and Saturdays with funding from the Welsh Government.
- (ii) It is pleasing to understand that the county council is now dealing with the issue of re-opening the pathway between No. 1 Bro Teifi and No. 11 Bro Teifi.
- (iii) A public meeting will be held to discuss the Cardigan Integrated Care Resource Centre and other health issues on 19 January in the Small World Theatre with a drop-in session between 5.30 and 6.30pm, followed by a presentation – "Mid Wales Healthcare Study" – at 6.30 with a question and answer session. A Stakeholder Meeting will be held on 22 January at 2.00pm (venue to be confirmed).

## 11. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
218	CSC/CCC (Stephen Johnson): <i>Trefniadau'r Praesept 2015-16</i> Precept Arrangements.	<i>I'w gadarnhau yng nghyfarfod gosod y gyllideb.</i> To be confirmed at the meeting to set the budget on 20/1/15.
219	CSC/CCC (Paul Arnold): <i>Tynnu cyllid yn ôl ar gyfer Meysydd Chwarae Plant.</i> Withdrawal of Funding for Children's Playgrounds.	<i>Awgrymwyd bod cyfarfod safle i'w drefnu gan yr Is-bwyllgor Hamdden i archwilio'r safle.</i> <i>It was recommended that the Recreation Sub-committee organises a site meeting (see page 936 Sub-committees 16/12/14).</i>
220	CSC/CCC (Paul Arnold): <i>Dileu Cyllid Arddangosiadau Blodau.</i> Withdrawal of Funding for Floral Displays.	<i>Gofynnwyd i'r clerc anfon copi i'r aelodau.</i> The clerk was asked to forward a copy to members.
221	CSC/CCC (Huw Williams): <i>Canllawiau sut i ymateb i geisiadau cynllunio.</i> Directives how to respond to planning applications.	<i>Copi wedi ei anfon at aelodau.</i> Copy forwarded to all members.
222	CSC/CCC (Allan Lewis): <i>Canllawiau ynglŷn â phroblemau ynghylch hawliau tramwy.</i> Reporting problems relating to Public Rights of Way.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
223	CSC/CCC (Claire Goodman): <i>Cais i addasu'r Map Diffiniol ar gyfer llwybr Bro Teifi.</i> An application to modify the Definitive Map for the Bro Teifi footpath from No. 1 to the end of No. 11 Bro Teifi.	<i>Gweler isod.</i> <i>See below.</i>
224	Llywodraeth Cymru: <i>Gwariant Adran 137: Y terfyn ar gyfer 2015-16.</i> Section 137 Expenditure: Limit for 2015-16: £7.36 per elector	<i>Nodwyd.</i> <i>Noted.</i>
225	<i>Llywodraeth Cymru: Adroddiad i ymateb Llywodraeth Cymru: Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni Papur Gwyn: Diwygio Llywodraeth Leol.</i> Welsh Government – Devolution, Democracy and Delivery White Paper: Reforming Local Government.	<i>Mae'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Llywodaeth Cymru.</i> The report is available on the Welsh Government website (14 files, approx. 975 pages)
226	W. J. Williams & Davies, <i>Cyfreithwyr/Solicitors:</i> (a) <i>Tir ar Golwg y Castell.</i> Land at Golwg y Castell: <i>Gan fod y cyngor yn gwneud trefniadau eraill, dychwelwyd y dogfenni.</i> As the council has made other arrangements, the documents have been returned by the solicitors. (b) <i>Llythyr wedi ei anfon at gyfreithwyr y Clwb Bowls.</i> Letter sent to the solicitors of Cardigan Bowls Club requesting an update on the trustees so that the information can be inserted in the draft Lease and the Landlord and Tenant Act Notice.	<i>Nodwyd.</i> <i>Noted.</i>
227	<i>Llywodraeth Cymru: Yn cadarnhau bod y gwaith ar oleuadau'r ffordd osgoi wedi ei gwblhau.</i> Welsh Government: confirming that the repair to the by-pass lights has been completed.	<i>Nodwyd.</i> <i>Noted.</i>
228	Derwen Lighting Ltd: <i>Yn cyngori'r cyngor bod y golau ar Lôn Cnwcydintir yn anniogel.</i> Information that the light column on the lane is in poor condition.	<i>Copi i'w anfon at y Cyng. John Adams-Lewis i'w drafod gyda Mr Neil Garrod.</i> Copy to be forwarded to Cllr John Adams-Lewis to be discussed with Mr Neil Garrod.
229	Abraham Lincoln Presidential Library & Museum: <i>Copi o lythyr anfonwyd gan Faer Tref Aberteifi ar 9fed Mai 1865 yn estyn cydymdeimlad y cyngor i bobl America yn dilyn bradlofruddiad yr Arlywydd Lincoln.</i> Copy of a letter sent by the Mayor of Cardigan, Cllr Richard David Jenkins, to the American people following the assassination of President Lincoln in 1865.	<i>Copi wedi ei anfon at y cyngorwyr.</i> Letter sent to all councillors.  <i>Cytunwyd bod y Cyng. Mark Cole yn ymateb ar ran y cyngor gydag ychwanegiadau unigol, os dymunir, gan y cyngorwyr.</i> It was agreed that Cllr Mark Cole would draft a letter of response; councillors were invited at their discretion to add their comments.
230	Mrs Sue Lewis: <i>Gwybodaeth am ei diswyddiad fel golygydd y Teifi-Seid a gwahoddiad i'r cyngorwyr fynd ar daith o amgylch y castell ar ddyddiadau agored (27/1/15 neu</i>	<i>Cyfeiriwch at eitem 1 (Croeso'r Maer)</i> Please refer to item 1 (Mayor's Welcome).

	31/1/15). Information regarding Sue's redundancy from the position of editor of the Tivy-Side and an invitation to councillors to the open days at the castle on 27/1/15 or 31/1/15.	<i>Cytunwyd bod yr aelodau yn dilyn y daith yn y castell am 10.00yb ar 31 Ionawr.</i> It was agreed that members would join the castle tour at 10.00am on 31 January.
231	Ms Natalie Davies, <i>Cydlynnydd Busnes Cymru Mentor</i> /Business Wales Mentor Co-ordinator. <i>Cais i siarad â'r cyngor.</i> An application to address the council on business issues.	<i>Gofynnwyd i'r clerc gyfeirio'r cydlynnydd at Goleg Ceredigion, Masnachwyr Aberteifi a Siambr Aberteifi.</i> The clerk was asked to refer the co-ordinator to Coleg Ceredigion, Cardigan Traders and Cardigan Chamber.
232	Canolfan Plant Jig-So Children's Centre: <i>Gwahoddiad i'r Maer fynychu noson i gyflwyno tystysgrifau.</i> An invitation to the Mayor to attend a certificate presentation evening, 7/1/15, 2.00pm	<i>Bydd y Maer yn mynychu'r digwyddiad.</i> The Mayor has received the invitation and will attend.
233	Relate Cymru: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.
234	<i>Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion YFCs:</i> <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.
235	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Rhagfyr.</i> Handyperson's December report.	<i>I'w drafod tan eitem 12.</i> To be discussed under item 12.

**Allan Lewis:** *Pennaeth y Gwasanaethau Datblygu Economaidd a Chymunedol.*  
Head of Economic and Community Development Services.

**Claire Goodman:** *Swyddog Hawliau Tramwy (Map Diffiniol) / Public Rights of Way (Definitive Map) Officer*

**Huw Williams:** *Pennaeth y Gwasanaethau Ffordd o Fyw.* Head of Lifestyle Services.

**Paul Arnold:** *Pennaeth y Gwasanaethau Bwrdeistrefol ac Amgylcheddol.*  
Head of Municipal and Environmental Service

**Stephen Johnson:** *Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol / Head of Financial Service*

[223]—*Gan fod nifer o drigolion yr ardal wedi anfon llythyron yn tystio eu bod wedi defnyddio'r llwybr dros y blynyddoedd, cytunodd y cyngor yn unfrydol i gefnogi'r Gorchymyn i addasu'r Map Diffiniol a'r datganiad ar gyfer y llwybr drwy ychwanegu rhan sy'n mynd o ymyl Rhif 1 Bro Teifi at derfyn Rhif 11 Bro Teifi.*  
*Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cyng. Jane Roche ac eiliwyd gan y Cyng. Clive Davies.*

[223]—As a number of local residents had forwarded letters confirming their use of the path over many years, the council unanimously agreed to support the Order to modify the Definitive Map and statement for the footpath by adding the length of path running from the side of No. 1 Bro Teifi to the end of No. 11 Bro Teifi. The Resolution was proposed by Cllr Jane Roche and seconded by Cllr Clive Davies.

## 12. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

### **Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 16 Rhagfyr.**

Confirmation of 16 December Sub-committee Minutes.

### **Cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Mark Cole bod cofnodion 16 Rhagfyr yn gywir.**

It was proposed by Cllr Dai Brabrook and seconded by Cllr Mark Cole that the 16 December minutes were correct.

### **Materion yn codi Matters Arising:**

**Tud. 934 (Arwyddion): Dywedodd y Cyng. Mark Cole y bydd yn cyfarfod â Mr Tom Delph-Januriek ar 8 Ionawr i drafod arwyddion y ffyrdd gan ystyried torri yn ôl ar nifer ohonynt. Bydd y Cyng. Cole yn adrodd yn ôl i'r cyngor mewn da bryd. Cytunwyd y bydd angen tri phris am y saith hysbysfwrdd sydd wedi eu lleoli yn y meysydd parcio.**

Page 934 (*Signposts*): Cllr Mark Cole will meet Mr Tom Delph-Januriek on 8 January to discuss the way forward regarding the signposts for Cardigan, and suggesting reducing the number required. Cllr Cole will report back to council with his findings. It was agreed that three quotations would be required for the interpretation boards located in various car parks.

**Tud. 937(b): Dywedodd y clerc ei fod yn dal i ddisgwyl ateb oddi wrth Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ynglŷn â'r mater hwn.**

Page 937(b): The clerk noted that he was still awaiting a response from the Society of Local Council Clerks regarding a grant donations query.

**Adroddiad y Bachan Deche: Ym marn y Bachan Deche mae'r ddwy rwyd ar y cyrtau tenis mewn cyflwr gwael ac mae angen rhai newydd. Cafwyd pris o £210 ganddo oddi wrth gwmni Courtstall. Cynigiwyd gan y Cyng. Jane Roche ac eiliwyd gan y Cyng. Ken Edwards bod y Bachan**

**Deche yn archebu rhwydau newydd. Cytunodd y cyngor iddo ef a'r Cyng. Dai Brabrook waredu'r goeden Nadolig fore Sul, 11 Ionawr ac i droi'r golau Nadolig i ffwrdd.**

*Handyperson's Report:* The report stated that the two nets on the tennis courts are in a poor condition and should be replaced before the spring. The Handyperson had obtained a price of £210 for the nets. It was proposed by Cllr Jane Roche and seconded by Cllr Ken Edwards that new nets be purchased. The council agreed that the Handyperson and Cllr Dai Brabrook be allowed to remove the Christmas tree and switch off the Christmas lights on Sunday morning, 11 January.

- 13. Datganiad chwarterol gan y Maer am ddiogelwch cadwyni'r cyngor.**  
Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chains of office.  
**Sicrhaodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.**  
The Mayor confirmed that both chains were in safe custody

- 14. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**  
Any Other Business at the discretion of the Mayor.

- (a) **Cyflwynodd y cler ffurflen gais oedd wedi ei pharatoi ar gyfer ceisiadau yr is-bwyllgor Grantiau. Derbyniwyd hi gan y cyngor.**

The clerk displayed an application form he had prepared for the purpose of grant applications. It was accepted by council.

- (b) **Awgrymodd y Cyng. Ken Edwards bod y cyngor yn cyflwyno tusw o flodau i Mrs Sue Lewis yn dilyn ei hymddeoliad fel golygydd y papur lleol. Awgrymwyd hefyd bod y cyngor yn cyflwyno tarian y dref iddi am ei gwasanaeth i'r gymuned. Cytunwyd cyflawni'r ddefod ar ddechrau cyfarfod mis Chwefror o'r cyngor.**

Cllr Ken Edwards recommended that a bouquet of flowers be presented to Mrs Sue Lewis following her retirement as editor of the Tivy-Side. It was also recommended that a town shield be presented for her service to the community. Council agreed to present Mrs Lewis with the above at the next monthly council meeting.

- (c) **Datganodd y Cyng. Neal Jones ei bryder am ddiogelwch y ffordd A478 ger y gwaith ffordd i'r dde o Troed-y-rhiw. Rheolir y drafnidiaeth yno gan oleuadau oedd yn araf iawn yn newid cyfeiriad; derbyniwyd cwynion gan fodurwyr dros adeg y gwyliau am hyn. Cwynodd y Cyng. Jones hefyd am gyflwr y ffordd ger gweithdy Mark Jukes yn stad Pentwŷd. Gan fod y ffordd yno tan berchnogaeth cwmni Ashtead, Caerdydd, cytunodd y Cyng. Catrin Miles drafod y mater gyda'r Cyng. Jones.**

Cllr Neal Jones expressed his concern at the potential danger of the highway near the works being carried out currently on the A478 just south of Troed-y-Rhiw. These works are controlled by traffic-lights which, over the Christmas/New Year period, provoked comments/complaints due to the length of time motorists were obliged to wait for them to change to green.

Cllr Jones also voiced his concern at the condition of the road alongside the entrance to Mark Jukes' premises on the Pentwood Industrial Estate. As this road is owned by Ashtead, Cardiff, Cllr Catrin Miles agreed to liaise with Cllr Jones regarding the matter.

- (d) **Cyfraniad Cadwgan Donation**

***Oherwydd natur gyfrinachol y busnes oedd i'w drafod, gwaherddwyd y wasg, a chynhaliwyd eitem 14(d) mewn pwyllgor. Cynigiwyd yr uchod gan y Cyng. Jane Roche ac eiliwyd gan y Cyng. Clive Davies.***

*In view of the confidential nature of the business to be transacted, the press, etc., were excluded and the council discussed item 14(d) in committee.  
The above was proposed by Cllr Jane Roche and seconded by Cllr Clive Davies.*

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.19yh***  
*There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.19pm.*

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....